# BWRDD GWEITHREDOL

## 26 EBRILL 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: J.S. Edmunds a D.M. Cundy

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol;
J. Corner, Swyddog Technegol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 10:30yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Ar yr adeg hon cyfeiriodd y Cadeirydd at y digwyddiad yng nghanolfan ailgylchu Nant-y-caws a gwahoddodd y Cynghorydd Hazel Evans, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd.

Rhoddodd y Cynghorydd Hazel Evans wybod i'r Bwrdd fod tân wedi cychwyn yng nghanolfan ailgylchu Nant-y-caws, Caerfyrddin ddydd Sadwrn 24 Ebrill 2021. Cafodd y larwm ei seinio am oddeutu 3.30pm, gan rybuddio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a gyrhaeddodd ac a lwyddodd i reoli'r tân yn llwyddiannus. Rhoddwyd gwybod ei fod yn dân sylweddol a oedd wedi digwydd yn y Cyfleuster Adennill Deunyddiau, lle mae'r bagiau glas sy'n cynnwys gwastraff y gellir ei ailgylchu yn cael eu cymryd i'w didoli. Yn ffodus, ni chafodd neb ei anafu o ganlyniad i'r digwyddiad gan fod y tân wedi digwydd ar ôl shifft.

Yn ogystal, dywedodd y Cynghorydd Evans ei bod yn braf nodi bod CWM Environmental Ltd wedi cadw'r sefyllfa dan reolaeth yn unol â'i weithdrefn tân. Ar hyn o bryd roedd y cwmni'n gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Tân a byddai ymchwiliad i'r achos yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi ymweld â'r safle i asesu'r sefyllfa.

Er mwyn diogelu'r amgylchedd lleol, rhoddwyd y cynllun rheoli dŵr ar waith yn llwyddiannus i ymdrin â'r dŵr ffo drwy chwistrellu dŵr i reoli'r tân. Cafodd y dŵr ei reoli a'i ddal yn y morlyn ar y safle.

Cymerodd y Cynghorydd Evans y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, CWM Environmental Ltd a swyddogion y Cyngor am eu hymateb cyflym o ran ymdrin â'r sefyllfa hon. Mae ein timau mewnol, ynghyd â CWM Environmental Ltd, hefyd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar y cyhoedd.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Glynog Davies | 10 - Canol Tref Llanelli - 8/12 Stryd Vaughan. | Mae gan y Cynghorydd Davies fuddiant personol yn yr eiddo cyfagos. |

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 12FED EBRILL, 2021

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill, 2021 yn gofnod cywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. CYLCH GWAITH BWRDD CRONFA BENSIWN DYFED

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gydsyniad y Bwrdd i argymell i'r Cyngor fod Cylch Gwaith Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei ddiwygio gyda'r bwriad o'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Rhoddwyd gwybod bod Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed yn bodoli ochr yn ochr â Phwyllgor y Gronfa Bensiwn a'i fod yn cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Roedd hefyd yn helpu i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Roedd y Cylch Gwaith a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ar 19 Ionawr 2015 i ddechrau, sef pryd y sefydlwyd Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed, wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r arferion presennol a chynigiwyd y newidiadau canlynol yn yr adroddiad:

- Gall y Bwrdd gytuno i gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Pensiynau lle bo hynny'n briodol.

- Yn flaenorol, gellid ymestyn dyddiadau tymhorau aelodau'r Bwrdd am gyfnod pellach o 3 mis oherwydd amgylchiadau eithriadol. Mae hyn wedi cael ei ddiwygio i hyd at flwyddyn.

- Yn flaenorol, gallai Cadeirydd y Bwrdd fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor fel arsylwr, ond, mae'r Cylch Gwaith wedi cael ei ddiweddaru i ganiatáu i'r Cadeirydd adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor ar faterion y Bwrdd.

- Yn flaenorol, gallai Cadeirydd y Pwyllgor fynd i gyfarfodydd y Bwrdd fel arsylwr, ond, diweddarwyd hyn er mwyn caniatáu i Gadeirydd y Pwyllgor adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd lle bo angen.

- Mae 7 aelod o'r Bwrdd, ac nid oedd gan y Cadeirydd hawl i bleidleisio yn flaenorol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer pleidlais gyfartal, ond bellach bydd y Cadeirydd yn cael pleidleisio mewn sefyllfa lle ceir pleidlais gyfartal.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod Cylch Gwaith Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei ddiwygio fel y nodir yn yr adroddiad a'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.**

## 7. DATBLYGU HEN SAFLE GRILLO, PORTH TYWYN

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gydsyniad y Bwrdd i waredu hen safle Grillo a Safle 6, Porth Tywyn, drwy weithdrefn gaffael agored, er mwyn darparu cynllun preswyl ynghyd â dibenion masnachol posibl.

Nododd y Bwrdd fod y safle datblygu 12.9 erw, a amlygwyd yn Atodiad 1, ynghlwm wrth yr adroddiad yn elfen allweddol o ddyheadau adfywio'r Cyngor ar gyfer Porth Tywyn ac yn rhan o Brif Gynllun Porth Tywyn. Yr amcan ar gyfer y Prif Gynllun oedd sicrhau llesiant Porth Tywyn a'r ardaloedd cyfagos yn y dyfodol drwy greu datblygiadau preswyl, hamdden a chyflogaeth, a fyddai'n hyrwyddo Porth Tywyn fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Yn ogystal, byddai'r safle yn rhan o gam cyntaf y datblygiad hwn drwy adfywio tir llwyd, er mwyn darparu oddeutu 320 o gartrefi newydd a chyfleusterau hamdden a manwerthu posibl. Nododd y Bwrdd y byddai oddeutu 2.28 erw o dir ar safle cyfagos arall yn cael ei gyflwyno fel yr ail gam yn ddiweddarach i ddarparu oddeutu 40 o unedau preswyl, a hynny ar lan y glannau.

Mynegwyd bod yn bwysig cefnogi'r economi leol drwy annog busnesau lleol i dendro cyn belled â phosibl wrth ddilyn y rheolau caffael.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo gwaredu hen safle Grillo a Safle 6, Porth Tywyn, drwy weithdrefn gaffael agored, er mwyn darparu cynllun preswyl ynghyd â dibenion masnachol posibl.**

**8. UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

**9. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**10. CANOL TREF LLANELLI - 8/12 STRYD VAUGHAN**

[Sylwer: Ar ôl datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach, cymerodd y Cynghorydd Davies ran yn y broses o drafod a phenderfynu ar yr adroddiad].

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 9 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn anfantais faterol i'r awdurdod mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon, a gallai gael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.**

Bu’r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl am gynnig i gaffael 8/12 Stryd Vaughan, Llanelli yn unol â'r telerau a bennir. Byddai'r eiddo, sydd mewn man manteisiol yng nghanol tref Llanelli, yn hwyluso dyheadau'r Awdurdod i adfywio'r dref.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r cynnig i gaffael 8/12 Stryd Vaughan, Llanelli yn unol â'r telerau a bennir yn yr adroddiad.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**